

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	5 Rhagfyr 2018
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd licensing@denbighshire.gov.uk 01824 706066
TESTUN:	Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyflwyno rhestr o gerbydau dynodedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Hysbysu'r Aelodau ar gynnydd cyflwyno rhestr o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 Mae Deddfwriaeth yn caniatáu i awdurdodau lleol gadw rhestr o gerbydau trwyddedig fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sy'n bodloni gofynion cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn, a phan mae rhestr yn bodoli, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod rhwymedigaethau pellach ar yrwyr a/neu berchnogion y cerbydau hynny.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 167.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

- 4.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno sawl deddfwriaeth yn ymwneud â gwahaniaethu. Mae adrannau 160 hyd at 173 yn benodol yn trin cerbydau hurio preifat a Cherbydau Hacni.
- 4.2 Mae Adran 167 yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu gynnal rhestrau o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.
- 4.3 Bydd yr Aelodau yn cofio, yn y cyfarfod ym mis Mawrth eleni, eu bod wedi penderfynu cymeradwyo cyflwyno rhestr o'r fath ac wedi rhoi cyfarwyddyd i'r swyddogion ddechrau datblygu'r rhestr ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu.
- 4.4 Mae'r cofnodion presennol yn nodi bod 352 o gerbydau trwyddedig a 24 o'r rhain wedi'u nodi fel rhai sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

- 4.5 Bydd yr Aelodau hefyd yn cofio eu bod wedi dirprwyo'r dyddiad gweithredu i'r swyddogion mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu yn eu cyfarfod ym mis Mawrth. Mae'r swyddogion yn cynnig dyddiad gweithredu o 31 Ionawr 2019. Cyn y dyddiad hwn bydd holl weithredwyr cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael gwybod am weithrediad y rhestr a'r broses ar gyfer unrhyw geisiadau i gael eu heithrio o'r rhwymedigaeth i ddarparu cymorth symudedd, fel yr amlinellwyd yn Atodiad A.
- 4.6 Atgoffir yr aelodau pan fydd y rhestr yn weithredol bydd y ddeddfwriaeth yn cyflwyno dyletswyddau penodol ar yrwyr cerbydau dynodedig megis:
- Cludo teithiwr sy'n eistedd mewn cadair olwyn
 - Peidio â chodi unrhyw dâl ychwanegol am wneud hynny
 - Os yw'r teithiwr yn dymuno eistedd mewn sedd teithiwr, i gludo'r gadair olwyn
 - Cymryd camau i sicrhau bod y teithiwr yn cael eu cludo'n ddiogel ac yn gyfforddus
 - Rhoi cymorth symudedd o'r fath i'r teithiwr, fel sy'n ofynnol o fewn rheswm.
- 4.6 Cymorth symudedd yw cymorth;
- I sicrhau bod y teithiwr yn gallu mynd i mewn ac allan o'r cerbyd
 - Os yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, galluogi'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd wrth eistedd yn y gadair olwyn
 - I lwytho bagiau'r teithiwr i mewn ac allan o'r cerbyd
 - Os nad yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, llwytho'r gadair olwyn i mewn ac allan o'r cerbyd
- 4.7 Ni fydd gofyn i'r cerbydau ar y rhestr orfod cario pob math o gadair olwyn, ond yn hytrach, gallu cario rhai mathau.
- 4.8 Bydd y rhestr o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ar gael i'r cyhoedd ar wefan y cyngor.
- 5.0 ARGYMHELLION**
- 5.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cytuno ar ddyddiad gweithredu o 31 Ionawr 2019 ar gyfer cyhoeddi'r rhestr o gerbydau dynodedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.